# Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Hywel Iorwerth

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): Comisiynydd y Gymraeg

e-bost/rhif ffôn: hywel.iorwerth@cyg-wlc.cymru

Eich cyfeiriad:

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **16 Mehefin 2023** i:

Is-adran Cymraeg 2050
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: Cymraeg2050@llyw.cymru

## Cwestiynau o’r ddogfen ‘Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg’

**Cwestiwn 1** – Ydych chi’n cytuno y dylid cynnwys mewn Bil ddarpariaeth ynghylch y targed cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

### Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno y dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil ynghylch prif dargedau strategaeth Cymraeg 2050. Mae’r system addysg yn gwbl ganolog i amcanion strategaeth Cymraeg 2050, a byddai gosod targed statudol o’r fath yn gosod cyfeiriad clir i’r sector addysg yn ei gyfanrwydd. Oherwydd pwysigrwydd hyn, ac fel rydym yn ymhelaethu arno yn ein hymateb i gwestiwn 2, byddem yn croesawu mwy o eglurder ynghylch sut bydd gwahanol dargedau ac amcanion yn cael eu gosod mewn deddfwriaeth.

Mae cynigion y papur gwyn â goblygiadau sylweddol o ran mesur cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol. Mae’r papur gwyn i bob pwrpas yn cynnig diffinio ystyr siaradwr Cymraeg. Hynny yw, mae paragraff 12 a 30 yn gwneud cyswllt clir rhwng yr uchelgais y bydd y system addysg yn creu ‘siaradwyr Cymraeg hyderus’ a deilliant ieithyddol fyddai gyfystyr â lefel B2 CEFR. Mae’r bwriad felly i lunio continwwm sgiliau Cymraeg, ac i blethu’r continwwm gyda chwricwlwm a chymwysterau am ddarparu fframwaith cenedlaethol i fesur sgiliau Cymraeg unigolion. Er mai’r cyfrifiad yw’r ffynhonnell awdurdodol ar gyfer y nifer o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ar hyn o bryd mae’n bosib gweld sefyllfa yn y dyfodol lle mai lefel cyrhaeddiad unigolion ar y continwwm sgiliau fydd y dangosydd pwysicaf ar gyfer mesur sgiliau Cymraeg y boblogaeth. Mae’r papur gwyn hefyd yn cynnig gosod categorïau ar sail statudol, a hynny mewn cysylltiad â’r continwwm sgiliau Cymraeg. Os felly, bydd y niferoedd sy’n mynychu ysgolion mewn categorïau gwahanol (er enghraifft, cynnydd yn y niferoedd mewn ysgolion dwyieithog a chyfrwng Cymraeg) yn fesur pwysig o gynnydd yn ogystal.

Mae’r bwriad i ddatblygu continwwm sgiliau fel ffordd o fesur sgiliau ieithyddol ac fel sgaffald i gynllunio ieithyddol yn un cyffrous. Mae’r cynigion yma yn creu cyswllt llawer mwy uniongyrchol rhwng y system addysg a’r nod o gynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg. Rydym yn croesawu’r datblygiadau hyn. Er hynny, mae hefyd angen bod yn ofalus. Rhaid sicrhau nad yw’r broses o ddiffinio ‘siaradwr Cymraeg’, a gosod y diffiniad hwn fel y disgwyliad isaf i ysgolion yng Nghymru, yn anfwriadol yn arwain at gynnydd mewn niferoedd siaradwyr goddefol yn unig. Ni ddylai, ac nid yw gweledigaeth Cymraeg 2050 yn un o filiwn o siaradwyr B2. Un o brif gryfderau strategaeth iaith y Llywodraeth yw ei fod yn annog dealltwriaeth mor gynhwysol â phosib o ‘siaradwr Cymraeg’, o’r rhai sydd ag ychydig eiriau yn unig, i siaradwyr iaith gyntaf. Y pwynt pwysig yn fan hyn yw bod angen sicrhau nad ydym yn anfwriadol wrth arddel B2 yn colli golwg ar rôl allweddol y system addysg yn cynnal a datblygu sgiliau siaradwyr Cymraeg hyderus sydd am ddefnyddio’r iaith yn feunyddiol ym mhob agwedd o’u bywydau. Mae ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, a chynyddu niferoedd disgyblion sy’n cyrraedd lefelau uwch continwwm

| |
|---|
| sgiliau Cymraeg yn hanfodol yng nghyd-destun amcanion Cymraeg 2050, yn enwedig y targedau yn ymwneud â chynyddu defnydd yr iaith, a drwy hynny gynnal ac ehangu cymunedau Cymraeg eu hiaith.<br><br>Mae'n hymateb i gwestiwn 2 yn berthnasol yn y cyd-destun uchod. |

**Cwestiwn 2** – Ydych chi'n credu y dylai fod rôl bendant gan awdurdodau lleol i weithio tuag at y deilliant sy'n gyfystyr â lefel B2 erbyn 2050? Ac os felly, beth ddylai'r rôl honno fod?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno â'r cysyniad y dylai deilliannau ieithyddol fod yn egwyddor drefniadol ar gyfer y Bil. Rydym hefyd yn croesawu'r bwriad i'w gwneud yn ofynnol i'r ysgolion cyfrwng Saesneg presennol weithio tuag at ddeilliant sydd gyfystyr â lefel B2. Credwn fod y bwriad hwn yn uchelgeisiol ac yn gyson ag amcanion a thargedau strategaeth Cymraeg 2050. Er hynny, byddem am weld gwelliant o ran sut mae'r gofynion hyn wedi'u gosod yn y papur gwyn, a'r canlyniadau anfwriadol allasai ddilyn o hynny.<br><br>Prif nod y Bil yw sicrhau bod pob disgybl yn gadael addysg statudol yn gallu siarad Cymraeg. Rydym yn cytuno'n llwyr â'r nod hwn, a'r bwriad mai deilliannau ieithyddol penodol ddylai fod yn gyrru proses llunio cwricwlwm o ran y Gymraeg. Mae'n ymddangos bod strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni'r nod hwn yn cynnwys 3 prif elfen (ac mae'r 3 elfen hwn yn cael ei amlygu yng ngweddill cynnwys y papur gwyn):<br><br>1) Ehangu addysg cyfrwng Cymraeg<br>2) Symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol<br>3) Codi safonau a disgwyliadau mewn ysgolion cyfrwng Saesneg<br><br>Mae'r ddarpariaeth ynghylch deilliant B2 yn berthnasol i'r drydedd elfen yn benodol. Nid yw'r deilliant B2 yn nod addas i ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ac felly nid yw'n gallu bod yn nod cyffredinol i'r holl sector addysg. Nid ydym yn anghytuno â'r bwriad o osod deilliant B2 fel isafswm, ond nid yw'n ymddangos yn rhesymegol gosod hwn fel nod trosfwaol i'r gyfundrefn addysg yn ei chyfanrwydd.<br><br>Y tu hwnt i'r ffaith nad yw gosod y nod o gyrraedd deilliant B2 yn gyson â pholisi Llywodraeth Cymru, ein pryder ni yw y gall arwain at ganlyniadau anfwriadol. Drwy ei osod fel nod i'r holl gyfundrefn addysg mae perygl y gall y dyhead i godi safonau ac uchelgais ymysg ysgolion cyfrwng Saesneg hefyd arwain at ostwng safonau ac uchelgais ymysg ysgolion dwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Er enghraifft, gallasai lesteirio twf addysg cyfrwng Cymraeg, gydag awdurdodau lleol yn gyndyn o sefydlu rhagor o ysgolion cyfrwng |

Cymraeg/dwyieithog ar sail y ddadl bod ysgolion cyfrwng Saesneg yn cyflawni'r nod statudol. Fe allasai arwain at atal uchelgais ymysg ysgolion dwyieithog a chyfrwng Cymraeg gyda rhai ysgolion yn penderfynu peidio ag ymestyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg, neu o bosib yn lleihau'r ddarpariaeth hon ar sail y ffaith bod deilliant B2 eisoes yn cael ei gyflawni. Yn fwy cyffredinol nid yw'n gwneud synnwyr i ni fod Bil sydd wedi'i seilio ar gysyniad continwwm datblygu gydol oes yn diffinio un pwynt penodol ar y continwwm fel amcan statudol cyffredinol.

Rydym yn deall y dymuniad a'r manteision o fod yn cyfeirio at ddeilliant ieithyddol fel B2 yn y Bil, ond bydd angen hefyd ystyried ffordd o'i gwneud yn fwy eglur mai isafswm yw hwn, ac ei fod yn un rhan o strategaeth ehangach. Mae angen i'r Bil ei gwneud yn gwbl eglur bod cynyddu niferoedd sy'n cyrraedd lefelau uwch y continwwm sgiliau hefyd yn nod greiddiol. Rydym felly yn credu bod angen ystyried yn ofalus sut gellid gosod y gwahanol dargedau/amcanion sy'n cael eu trafod yn y papur gwyn yn y ffordd fwyaf rhesymegol ac effeithiol:

- **Prif dargedau Cymraeg 2050:** y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu defnydd y Gymraeg erbyn 2050 yw canolbwynt polisi Llywodraeth Cymru o ran y Gymraeg
- **Prif nod sy'n ganolbwynt i'r Bil:** erbyn 2050, fod pob disgybl yn gadael addysg statudol yn gallu siarad Cymraeg yn hyderus.
- **Amcanion strategol penodol** (sef y ffyrdd o gyflawni'r targedau uchod):
    - Ehangu addysg cyfrwng Cymraeg fel bod 40% o ddysgwyr yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2050
    - Symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol
    - Cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg er mwyn codi disgwyliadau a safonau a thrwy hynny osod gwaelodlin i'r sector addysg yng Nghymru

Dylid hefyd ystyried gwneud cysylltiad cliriach rhwng y targedau ac amcanion strategol uchod, a'r darpariaethau deddfwriaethol penodol fydd yn y Bil er mwyn galluogi hyn ddigwydd. Er enghraifft, drwy:

- Roi pwerau i Weinidogion Cymru osod targedau cenedlaethol a lleol ynghylch ehangu addysg cyfrwng Cymraeg
- Datgan continwwm sgiliau Cymraeg
- Creu cyfundrefn statudol ar gyfer categoreiddio ysgolion, a hynny mewn perthynas â deilliannau ieithyddol y continwwm sgiliau.
- Yn sgil gyfundrefn gategoreiddio fydd â sail cyfreithiol, cadarn iddo, osod deilliant ieithyddol fel isafswm i ysgolion yng Nghymru (e.e. erbyn 2050 deilliant sy'n gyfystyr â B2)

**Cwestiwn 3** –Ydych chi'n credu y dylai fod rôl bendant gan Weinidogion Cymru i weithio tuag at y deilliant sy'n gyfystyr â lefel B2 erbyn 2050? Ac os felly, beth ddylai'r rôl honno fod ?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Gweler ein hymateb i gwestiwn 2. |

**Cwestiwn 4** – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig y dylai dyletswydd fod ar Weinidogion Cymru i ddatgan y continwwm sgiliau Cymraeg?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Rydym yn cytuno â'r bwriad i ddatblygu continwwm sgiliau Cymraeg. Mae potensial i gontinwwm sgiliau o'r fath fod yn sgaffald effeithiol ar gyfer yr holl waith cynllunio ieithyddol ym maes addysg. Fel mae'r papur gwyn yn ei nodi, gall continwwm o'r fath fod yn fframwaith cynllunio a mesur i'r sector addysg o'r bôn i'r brig, ac ymhellach na hynny yn y byd gwaith a chyflogaeth.

Credwn fod angen cysylltu'r ddyletswydd uchod gyda'r bwriad i roi pwerau i Weinidogion Cymru bennu disgrifiadau statudol i bob categori. Hynny yw, mae angen i'r continwwm sgiliau Cymraeg gael ei gysylltu'n glir â'r diffiniadau o gategorïau ieithyddol ysgolion. Yn ogystal â galluogi Gweinidogion Cymru i ddatgan deilliant ieithyddol fel isafswm ar gyfer ysgolion Cymru, bydd hyn yn galluogi darparu gwell eglurder i rieni a disgyblion ynghylch deilliannau ieithyddol tebygol dysgwyr mewn ysgolion gwahanol. Bydd hefyd yn hwyluso proses gynllunio a mesur o fewn ysgolion dwyieithog a chyfrwng Gymraeg, a thrwy hynny ddarparu dull mwy cadarn o gynllunio ieithyddol er mwyn cyflawni amcanion ehangach Cymraeg 2050 (er enghraifft, cynyddu defnydd iaith, cynnal cymunedau Cymraeg, cynyddu cyfraddau trosglwyddo yn y cartref, a hwyluso cynllunio gweithluoedd mewn gwlad ddwyieithog).

Byddai dyletswydd o'r fath yn ffordd o sicrhau erbyn 2050 bod pob disgybl yn gadael addysg statudol yn gallu siarad Cymraeg yn hyderus.

**Cwestiwn 5** – Ydych chi’n cytuno y dylid creu cyfundrefn statudol ar gyfer categoreiddio ysgolion a gynhelir yn ôl cyfrwng iaith?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Rydym yn cytuno â’r cynigion ar gyfer creu cyfundrefn statudol ar gyfer categoreiddio ysgolion a gynhelir yn ôl cyfrwng iaith. Mae’r cynigion hyn yn cryfhau’n sylweddol allu’r gyfundrefn gategoreiddio ysgolion i gynnal a datblygu darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion. Mae’r Comisiynydd wedi nodi’n gyson ddiffygion y system gategoreiddio ieithyddol yn y gorffennol. Mae’r cynigion sydd yn y papur gwyn yn mynd i’r afael â’r diffygion hyn mewn ffordd gynhwysfawr a chadarn.

Fel mae ein hymateb i gwestiwn 4 yn ei nodi, gellid bod yn fwy eglur ynghylch perthynas y gyfundrefn gategoreiddio a’r continwwm sgiliau. Er enghraifft, mae paragraff 44 y papur gwyn yn cysylltu’r bwriad i ddefnyddio’r gyfundrefn gategoreiddio i bennu amser cyswllt gyda’r Gymraeg gyda chyrraedd deilliannau ieithyddol penodol. Credwn fod angen bod yn fwy eglur ynghylch y berthynas hon. Dylid defnyddio’r categorïau a’r continwwm sgiliau er mwyn nodi’r deilliannau ieithyddol dymunol/disgwyliedig ar gyfer ysgolion mewn categorïau gwahanol. Gall hyn gynnwys gosod isafswm (e.e. sy’n gyfystyr â lefel B2) ar gyfer y sector addysg – drwy ddatgan y deilliant ieithyddol sy’n darged i ysgolion cyfrwng Saesneg, a phennu’r amser cyswllt gyda’r Gymraeg fyddai ei angen er mwyn rhoi’r cyfle gorau i gyrraedd y deilliant ieithyddol hwn.

**Cwestiwn 6** – Ydych chi’n cytuno y dylid rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu disgrifiadau’r categorïau mewn rheoliadau?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Rydym yn cytuno â’r bwriad i roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu disgrifiadau’r categorïau mewn rheoliadau. Bydd gwneud hyn yn galluogi proses ymgynghori ychwanegol ar y disgrifiadau eu hunain, ac yn bwysicach yn cynnig mwy o hyblygrwydd i addasu neu newid y disgrifiadau yn y dyfodol pe bai angen.

Fel rydym eisoes wedi’i nodi, dylai’r rheoliadau a’r disgrifiadau gael eu cysylltu’n glir gyda deilliannau ieithyddol y continwwm sgiliau Cymraeg.

**Cwestiwn 7** – Beth yw eich barn am gynnwys isafswm o ran amser a ddarperir yn Gymraeg? Beth yw eich barn am effeithiau isafswm o'r fath ar ysgolion, dysgwyr a staff? A ydych yn rhagweld unrhyw effeithiau eraill?

**Sylwadau ategol**

Rydym yn cytuno â'r egwyddor hon ac mae'n gyson â pholisi iaith Gymraeg ac addysg Llywodraeth Cymru. Os yw'r Llywodraeth am sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol drwy sicrhau bod pob disgybl yng Nghymru yn cael y cyfle i ddatblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus yna credwn fod rhaid cymryd camau o'r fath. Yn ystod datblygiad y cwricwlwm i Gymru, fe wnaeth y Comisiynydd ddadlau bod angen arweiniad llawer cryfach am yr hyn y mae disgwyl i ysgolion ei wneud er mwyn cyflawni amcanion y cwricwlwm o safbwynt yr iaith Gymraeg. Yn anffodus, mae tystiolaeth o'r gorffennol yn awgrymu na fydd modd cyflawni hyn drwy ddarparu disgresiwn i ysgolion ac athrawon. Mae'n rhaid bod yn fwy rhagnodol a gosod hyn mewn statud. Rydym felly yn croesawu'r ffaith fod y papur gwyn hwn yn mynd i'r afael â'r materion allweddol hyn.

Fel rydym yn ei nodi yn ein hymateb i gwestiwn 5, credwn y dylid cysylltu hyn yn fwy eglur gyda'r math o ddeilliannau ieithyddol y mae disgwyl i ddisgyblion mewn ysgolion gwahanol eu cyrraedd. Hynny yw, os oes disgwyl i ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg gyrraedd deilliant ieithyddol sydd gyfystyr â lefel B2, yna mae'n gwneud synnwyr cynnig yr isafswm amser cyswllt â'r Gymraeg fydd ei hangen er mwyn galluogi dysgwyr i gyrraedd y deilliant ieithyddol hwn.

Credwn y gellid mynd ymhellach fodd bynnag. Er bod amser cyswllt â'r Gymraeg yn allweddol, mae angen arweiniad ehangach ynghylch sut mae cynllunio cwricwlwm sydd am alluogi disgyblion i ddatblygu hyder yn y Gymraeg. Mae'n bosib bod rhai o gynigion pennod 7 yn berthnasol yn y cyd-destun hwn. Dylid cysylltu'r gofyniad hwn gyda chynlluniau cyflawni ysgolion (paragraff 60). Y pwynt sylfaenol yw bod angen cefnogaeth bellach ar ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae angen arweiniad cenedlaethol ynghylch llunio cwricwlwm sydd am arwain at ddeilliannau ieithyddol penodol, ynghyd â chefnogaeth ynghylch sut mae cynyddu darpariaeth Gymraeg wrth symud ar hyd y continwwm. Byddai hyn yn cynnwys ystyriaethau datblygu cwricwlwm, ethos ysgol, adnoddau, staffio, cyfathrebu â rhieni, ac ymgynghori.

Bydd angen rhagor o fanylder ynghylch sut bwriedir plethu'r math o ofynion a chyfarwyddyd uchod gyda gofynion y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r cynigion uchod yn cynnig gosod cyfarwyddyd ar ysgolion gan ragnodi darpariaeth ddisgwyliedig. Er ein bod yn croesawu hyn, mae'n ymddangos ei fod yn mynd yn groes i natur y cwricwlwm sydd yn pwysleisio disgresiwn penaethiaid a chyrff llywodraethu i lunio cwricwlwm addas.

**Cwestiwn 8** – Beth yw eich barn am y cynigion ym mharagraffau 51 i 56 ynghylch gosod ysgolion mewn categori ieithyddol a rôl gymeradwyo yr awdurdod lleol yn y broses?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn croesawu'r cynigion, ac maent yn mynd i'r afael â rhai o brif wendidau'r gyfundrefn bresennol.<br><br>Er ein bod yn cefnogi'r syniad o roi mwy o gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i wirio a chymeradwyo categori ysgolion, rhaid hefyd ystyried oblygiadau hyn o ran yr adnoddau ychwanegol y bydd ei hangen ar awdurdodau lleol. Byddai'n ddefnyddiol deall barn awdurdodau lleol ynghylch eu gallu presennol i wneud y gwaith pwysig hwn, a pha fath o gefnogaeth ychwanegol y byddai angen arnynt i wneud hynny.<br><br>Mae'r bwriad i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ynghylch sut dylid mynd ati i osod ysgol mewn categori yn hynod bwysig. Mae'r categorïau uwchradd presennol yn benodol yn eithaf cymhleth gan eu bod yn seiliedig ar ganran y cwricwlwm sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, canran y gweithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â chanran y disgyblion sy'n astudio isafswm o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae yna nifer eang iawn o newidynnau perthnasol yma o ran sut mae dehongli a chyfrifo'r canrannau sy'n sail i'r categorïau hyn. Credwn fod angen methodoleg eglur a chyson er mwyn osgoi problemau'r gorffennol a sicrhau eglurder i rieni a disgyblion. |

**Cwestiwn 9** – Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor y dylai pob ysgol gynyddu ei darpariaeth Gymraeg dros amser?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno â'r egwyddor ac mae'n anorfod y bydd rhaid gwneud hyn er mwyn cyflawni gweddill amcanion y Bil. Os oes bwriad i sicrhau bod pob disgybl yn gadael yr ysgol yn gallu siarad Cymraeg yn hyderus, yna bydd rhaid i fwyafrif ysgolion Cymru gynyddu eu darpariaeth Gymraeg dros amser. |

**Cwestiwn 10** – Beth yw eich barn am y cynigion ym mharagraffau 57 i 60 ynghylch y broses o gynyddu darpariaeth Gymraeg ysgolion?

| |
|---|
| Mae'r bwriad i ofyn i ysgolion nodi mewn cynllun cyflawni sut byddant yn mynd ati i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg yn bwysig. Fel y gwnaethom nodi yn ein hymateb i gwestiwn 7, credwn fod lle i gynnig arweiniad cenedlaethol fyddai'n cefnogi ysgolion ac |

awdurdodau lleol yn y cyd-destun hwn. Mae'r ffactorau sy'n cael eu rhestru ym mharagraff 60 yn berthnasol, ond mae'n bosib y gellid datblygu modelau rhanbarthol neu genedlaethol er mwyn cefnogi ysgolion yn hyn o beth. Mae yna le i ddatblygu enghreifftiau o arfer da, ac i ddatblygu model o sut mae datblygu cwricwlwm Cymraeg mewn ysgolion, a sut mae ymgymryd â phroses o symud ar hyd continwwm ieithyddol. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas ag ysgolion sydd wedi ymrwymo i symud categori, ac mewn cyfnod trosiannol. Mae'r cynigion ym mhennod 7 y papur gwyn yn berthnasol iawn yn y cyd-destun hwn, yn enwedig o ran yr angen am waith ymchwil ac arbenigedd i arwain yn y maes hwn.

Er ein bod yn cytuno â'r angen i bob ysgol gynllunio ar gyfer cynyddu darpariaeth Gymraeg, mae hefyd angen proses a threfniadau penodol ar gyfer ysgolion sydd mewn cyfnod trosiannol. Hoffem weld cryfhau y cynigion yn y papur gwyn ar gyfer symbylu ysgolion i symud i gategori ieithyddol uwch. Mae gosod gofyniad cyffredinol i ysgolion gynyddu darpariaeth Gymraeg yn rhan o'r ateb, ond credwn fod angen darpariaeth benodol i ysgogi ysgolion ac awdurdodau lleol i ymrwymo i symud categori dros gyfnod penodol o amser.

Yn y cyd-destun uchod, credwn bod angen sefydlu trefn statudol benodol trwy'r Bil ar gyfer rheoli'r broses o symud ysgol o un categori i'r llall. Er enghraifft gallasai'r Bil (neu reoliadau sy'n deillio o'r Bil) ddatblygu'r syniad o ysgol drosiannol ymhellach, gan sefydlu gofynion a chefnogaeth ychwanegol i ysgolion sydd wedi ymrwymo i symud categori. Gallai'r Bil ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ac awdurdodau lleol lunio a chytuno ar 'Gynllun Trosiannol' ar gyfer ysgolion sy'n ymrwymo i symud categori. Byddai'r cynllun yn cwmpasu'r amserlen, strategaeth, a'r dull gweithredu ar gyfer symud ysgol o un categori i'r llall dros gyfnod o amser. Byddai modd i'r Bil ddiffinio gofynion 'Cynllun Trosiannol' gan egluro sut byddai hyn yn plethu â dyletswyddau i lunio CSCA, gan gynnwys y targedau fydd yn cael eu gosod ar awdurdodau lleol. Byddai ysgol sydd wedi ymrwymo i symud ar hyd continwwm felly yn un â statws penodol, sydd wedi cytuno ar 'Gynllun Trosiannol, ac sy'n gymwys i dderbyn cefnogaeth benodol.

Gallasai'r Bil hefyd roi pŵer i Weinidogion ddarparu cyllid a chefnogaeth benodol i ysgolion mewn cyfnod trosiannol (y rhai sydd wedi cytuno ar Gynllun Trosiannol). Byddai modd felly gysylltu'r drefn statudol ar gyfer symud ysgol o un categori i'r llall gyda phecyn pwrpasol a phwerus o adnoddau a chyllid ar gyfer yr ysgolion hyn. Gallai hyn gynnwys hyfforddiant staff, cefnogaeth o ran adnoddau ac arbenigedd cynllunio, a defnydd llawer mwy strategol o gyllidebau presennol y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg, Grant Gwella Addysg a Grantiau Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol. Dyma yn ein barn ni yw'r math o gyfundrefn fyddai yn symbylu mwy o awdurdodau lleol ac ysgolion i symud ar hyd y continwwm mewn ffordd ystyrlon a phendant.

**Cwestiwn 11** – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ym mharagraffau 62 i 64 ynghylch monitro cynnydd ysgolion?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Y tu hwnt i'r sylwadau uchod (cwestiwn 10) ynghylch yr angen am gyfundrefn benodol i ysgolion trosiannol, rydym yn cytuno â'r cynigion ym mharagraffau 62 i 64. Yn ogystal â gosod dyletswyddau penodol ar awdurdodau lleol, mae'n hanfodol bod corff allanol fel Estyn yn sicrhau dilysrwydd a chadernid y system gategoreiddio. |

**Cwestiwn 12** – Beth yw eich barn ynghylch sut ddylai awdurdod lleol benderfynu ai ysgol cyfrwng Cymraeg fyddai ysgol newydd a sefydlir?

**Sylwadau ategol**

Rydym yn cytuno'n llwyr fod agor ysgolion newydd yn gyfle euraid i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn sir. Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn ddewis anoddach ac yn fwy beichus i gael mynediad ato i fwyafrif y boblogaeth. Byddai'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn llawer mwy pe bai'n opsiwn gwirioneddol i ragor o deuluoedd. Mae'r CSCAau yn dangos yn glir bod y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn dilyn sefydlu darpariaeth hygyrch ac o safon. O'r safbwynt hwn mae achos clir a chyfiawn dros weithredu'n gryf o blaid ehangu addysg cyfrwng Cymraeg ar hyd a lled Cymru. Rydym felly yn croesawu'r syniadau sy'n cael eu trafod ym mharagraffau 65 i 67.

Yn sicr dylid sicrhau bod gofyn i awdurdodau lleol wneud asesiad effaith ieithyddol cyn pennu cyfrwng ysgol newydd. Byddai modd cryfhau'n sylweddol y gofynion hyn o ran asesu effaith a hefyd ofynion prosesau ymgynghori ar gynigion sefydlu ysgolion newydd.

Er ein bod yn cytuno â'r egwyddor y dylid gosod rhagdybiaeth mai ysgol cyfrwng Cymraeg fyddai unrhyw ysgol newydd, mae angen bod yn gliriach sut byddai modd gwneud hyn yn ymarferol. Credwn fod gwerth ystyried y materion canlynol yn y cyd-destun hwn:

- Rôl Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid cyfalaf: os yw'r Llywodraeth yn cyfrannu cyllid cyfalaf at bwrpas sefydlu ysgol newydd, yna byddai modd i'r Llywodraeth ddylanwadu yn uniongyrchol ar gyfrwng iaith yr ysgol. Hynny yw, gallai'r Llywodraeth wneud hyn yn amod ar gyfer cyllid cyfalaf, yn enwedig yng nghyswllt yr angen i gyflawni targedau ag amcanion sydd wedi'i cytuno mewn CSGA. Mae'r pwyntiau hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun y cynigion sydd ym Mhennod 4 y papur gwyn ynghylch gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targedau i awdurdodau lleol ynghylch twf addysg cyfrwng Cymraeg. Rydym yn derbyn fodd bynnag na fyddai Llywodraeth Cymru wastad yn cyfrannu cyllid cyfalaf (yn enwedig yn achos datblygiadau tai), ac y byddai cyfraniad y Llywodraeth yn gallu amrywio o un prosiect i'r llall.

- Gofynion cynllunio: gwyddom bod amodau penodol i gynllunwyr ddarparu cyllid ar gyfer adeiladu ysgol pan fod nifer sylweddol o dai newydd yn cael eu codi. Dylid felly gosod rhagdybiaeth drwy'r drefn gynllunio mai ysgol Gymraeg ddylai rhain fod fel rheol.
- Opsiynau fydd yn deillio o waith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ac ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch: mae'n bosib y gellid gosod gofynion penodol yng nghyd-destun ardaloedd o'r fath. Wedi dweud hyn mae angen mwy o arweiniad ar gynllunio addysg Gymraeg ar hyd a lled Cymru, ac nid dim ond mewn ardaloedd penodedig.

**Cwestiwn 13** – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig yn yr adran hon ynghylch rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg (fydd yn gosod cyfeiriad i'r cynlluniau gweithredu lleol statudol)?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

### Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno â'r cynigion hyn i geisio cydlynu'r gwahanol strategaethau a thargedau mewn un darlun holistaidd. Wrth gwrs, mae hyn eisoes yn bodoli i raddau, ond mae'r cynigion yma i roi dyletswydd benodol ar Weinidogion Cymru i lunio ac adolygu Cynllun Cenedlaethol yn cynnig trefn llawer mwy cadarn. Ar lefel gyffredinol credwn y dylai'r Bil gynnwys rhywfaint o fanylder ynghylch cynnwys gofynnol cynllun cenedlaethol o'r fath, yn ogystal â phrosesau ymgynghori ar y cynllun.

Yn y cyd-destun uchod, rydym yn croesawu'r bwriad y bydd y cynllun yn canolbwyntio ar wahanol gyfnodau addysg er mwyn sicrhau dilyniant ieithyddol ac y bydd ffocws ar ddatblygiad sgiliau Cymraeg ôl-16. Byddem yn dymuno gweld hyn yn cael ei gryfhau ymhellach, drwy sicrhau bod y Bil yn ei gwneud yn glir bod angen i'r Cynllun Cenedlaethol gynnwys y sector gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar, a'r sector ôl-16/addysg uwch. Un gwendid yn y gyfundrefn cynllunio (a'r CSCA yn benodol) yn y gorffennol yw diffyg ystyriaeth briodol i bwysigrwydd cyd-gynllunio rhwng meysydd blynyddoedd cynnar, addysg statudol, ac addysg ôl-orfodol. Mae'r Cynllun Cenedlaethol yn gyfle i wneud cysylltiad cadarn rhwng y sectorau cysylltiedig hyn.

Mae'r Cynllun Cenedlaethol yn gyfle i bwysleisio rôl allweddol sefydliadau fel y Mudiad Meithrin, CWLWM, a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y gwaith o sicrhau dilyniant ieithyddol i ddysgwyr a datblygu'r gweithlu. Mae gwaith y sefydliadau hyn yn gwbl greiddiol i amcanion y papur gwyn yn ei gyfanrwydd, a chredwn bod angen adlewyrchu hyn yn well.

| |
|---|
| Un mater arall allweddol sydd ddim yn cael ei grybwyll yn y papur gwyn, yn benodol mewn perthynas â'r Cynllun Cenedlaethol, yw rôl allweddol cymwysterau. Fe fydd datblygu ac addasu cymwysterau (Cymraeg fel pwnc ac yn fwy cyffredinol) yn ran allweddol o'r strategaeth ehangach. Ar hyn o bryd does fawr dim cyfeiriad at gymwysterau yn y papur gwyn, nac ychwaith rôl allweddol Cymwysterau Cymru yn y cyd-destun hwn. |

**Cwestiwn 14** – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ym mharagraffau 73 a 74 i bennu targedau cenedlaethol ynghylch y gweithlu addysg a'u cynnwys yn y Cynllun Cenedlaethol?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Er ein bod yn cytuno â'r cynnig i bennu targedau cenedlaethol statudol a chynnwys y rhain yn y Cynllun Cenedlaethol, credwn mai un rhan o'r darlun yw hyn yn unig. Rydym yn pryderu y bydd diffyg gweithlu addysg â sgiliau Cymraeg priodol yn tanseilio'r gallu i gyflawni amcanion y Bil.<br><br>Mae data'r Llywodraeth ar hyn o bryd yn dangos ein bod ymhell iawn o fod yn cyflawni'r targedau presennol ar gyfer y gweithlu addysg. Nid yw'r targedau hynny yn ystyried ymrwymiadau uchelgeisiol y papur gwyn hwn, a goblygiadau sylweddol hyn nid yn unig o safbwynt gweithlu ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ond hefyd nifer yr athrawon a chymorthyddion â sgiliau Cymraeg fydd eu hangen ar y sector cyfrwng Saesneg. Mae gwireddu polisi addysg Llywodraeth Cymru yn gofyn am chwyldroi y ffordd rydym yn cynllunio gweithlu addysg yng Nghymru. Fel mae'r papur gwyn yn ei gydnabod, ni fydd modd ehangu addysg cyfrwng Cymraeg na gwella deilliannau ieithyddol dysgwyr ym mhob ysgol oni bai bod y gweithlu addysg â'r sgiliau iaith angenrheidiol. Ni all cynlluniau ar gyfer ysgolion a disgyblion fynd dim pellach na'r cynlluniau sy'n bodoli ar gyfer y gweithlu addysg. Ar hyn o bryd nid ydym o'r farn bod y cynlluniau sydd mewn lle ar gyfer y gweithlu addysg yn cyfateb nac yn adlewyrchu maint uchelgais y papur gwyn. Bydd angen bod yn fwy beiddgar ac uchelgeisiol ym maes datblygu gweithlu addysg ddwyieithog er mwyn gwireddu mwyafrif y cynigion clodwiw sydd yn y papur gwyn.<br><br>Mae'n bwysig nodi yma ein bod yn cydnabod y gwaith sylweddol sydd eisoes yn cael ei wneud ym maes cynllunio gweithlu addysg Gymraeg gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid eraill. Roedd cyflwyno Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg yn gam pwysig i'r cyfeiriad cywir. Er hyn, credwn fod y dystiolaeth yn ddiamwys yn dangos y bydd rhaid i'r broses o ddatblygu'r Bil dan sylw hefyd sicrhau bod cynlluniau mwy uchelgeisiol a phellgyrhaeddol ar gyfer sicrhau gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg. Er ein bod yn cytuno mai mater o bolisi a chyllideb yw hyn i raddau helaeth, credwn fod angen ystyried yn llawn yr opsiynau i gryfhau sail ddeddfwriaethol cynllunio'r gweithlu addysg. Mae'r sefyllfa sy'n |

bodoli yn un heriol tu hwnt, ac mae angen felly i'r Llywodraeth ystyried pob ffordd posib i ddylanwadu yn y maes allweddol hwn.

Cyn cyflwyno'r Bil, mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried pa gamau deddfwriaethol y gellid eu cymryd er mwyn cryfhau prosesau cynllunio gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai hyn yn cynnwys 1) dadansoddi'n llawn y pwerau presennol sy'n bodoli mewn gwahanol ddeddfau ac is-ddeddfwriaeth, a'r graddau mae gan Weinidogion Cymru eisoes bwerau i gyflwyno newidiadau ar ffurf gorchmynion, rheoliadau, neu ganllawiau; 2) ystyried a fyddai modd cynnwys yn y Bil bwerau ychwanegol i Weinidogion Cymru ddiwygio neu gyflwyno newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol; 3) ystyried potensial cyflwyno darpariaethau newydd yn y Bil fyddai'n cefnogi amcanion y Papur Gwyn o safbwynt cynllunio'r gweithlu.

Mae sawl deddf ac is-ddeddf perthnasol y dylid eu hystyried yn y cyd-destun uchod gan gynnwys:

- Deddf Addysg (Cymru) 2014
- Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015
- Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017
- Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012
- Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015
- Deddf Addysg 2002 a'r Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol Cymru 2022

Rydym o'r farn y gallasai deddfwriaeth gryfhau'n sylweddol yr elfennau canlynol o'r gyfundrefn cynllunio gweithlu addysg ddwyieithog:

- **Gosod cyfrifoldebau ac arweiniad cliriach a chryfach i sefydliadau penodol:** Ar hyn o bryd mae cyfrifoldebau cynllunio'r gweithlu fel petaent yn disgyn rhwng nifer o sefydliadau gwahanol ac nid oes neb mewn gwirionedd yn arwain nac yn atebol am ddiffyg cynnydd. Os oes bwriad drwy'r bil arfaethedig i roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targedau am nifer yr athrawon fydd eu hangen yn y dyfodol, yna mae angen gwneud yn hollol glir pwy fydd yn gyfrifol am gyflawni'r targedau, pwy fydd yn monitro hyn, a phwy fydd yn atebol. Ar hyn o bryd mae gormod o dargedau nad ydynt yn cael eu cyflawni, ac nad ydynt yn cael eu blaenoriaethu'n ddigonol yng ngwaith gwahanol sefydliadau yn y maes hwn. Mae angen ystyried gosod gofynion diamwys mewn deddfwriaeth bod cyrff fel y Cyngor Gweithlu Addysg a darparwyr Addysg Gychwynnol Addysg yn rhoi sylw dyledus i dargedau'r Cynllun Cenedlaethol arfaethedig wrth arfer eu swyddogaethau. Dylid hefyd sicrhau trefniadau monitro ac atebolrwydd ychwanegol a phenodol, gan ystyried a oes angen rhoi pŵer i Weinidogion Cymru enwi sefydliadau gwahanol i ddarparu cyngor arbenigol yn y cyd-destun uchod (e.e. sefydliadau fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol).

- **Rhoi sail statudol i Gynllun Gweithlu Cymraeg mewn Addysg a rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu'r cynllun bob 5 mlynedd:** Gallai'r broses o osod ac adolygu targedau ynghylch y gweithlu addysg gael eu gwneud yn y cyd-destun hwn, a gallasai cynllun o'r fath alluogi gosod dyletswyddau mwy eglur, a hefyd hwyluso proses graffu cenedlaethol.

- **Integreiddio hyfforddiant ieithyddol fel rhan annatod o gyrsiau AGA:** ar hyn o bryd mae'r meini prawf achredu cyrsiau AGA yng Nghymru yn gwneud gofynion eithaf amwys ynghylch y math o hyfforddiant ieithyddol y mae disgwyl i ddarparwyr ei gynnig. Mae angen cenedlaetholi a ffurfioli hyfforddiant ieithyddol ar gyrsiau AGA yng Nghymru. Mae gan sefydliadau fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yr arbenigedd a'r profiad i ddatblygu a darparu cwricwlwm hyfforddiant iaith Gymraeg i bob athro dan hyfforddiant yng Nghymru. Yn ogystal â gosod dyletswydd ar y cyrff hyn i ddatblygu a darparu'r cwricwlwm, gellir diwygio'r meini prawf achredu cyrsiau AGA i'w gwneud yn amod achredu bod darparwyr yn integreiddio'r hyfforddiant iaith genedlaethol ar eu cyrsiau. Byddai hyn yn arwain at hyfforddiant llawer mwy cyson wedi ei deilwra at garfannau o hyfforddeion gwahanol, a hefyd yn galluogi proses eglur i godi disgwyliadau yn raddol dros amser.

- **Hyfforddiant ieithyddol cenedlaethol i athrawon newydd gymhwyso:** Gallesid datblygu rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg cenedlaethol fyddai'n orfodol i bob athro newydd gymhwyso am 5 mlynedd gyntaf eu gyrfa. Hynny yw, ar sail y continwwm iaith Gymraeg, gellir rhoi dyletswydd ar y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu a darparu cwricwlwm penodol i athrawon newydd gymhwyso. I bob pwrpas byddai hyn gyfystyr â Chymraeg Gwaith dwys i weithlu addysg y dyfodol. Un rhan o'r broses o symud at gyfundrefn o'r fath fyddai cynllunio, datblygu, a darparu'r hyfforddiant iaith ar lefel genedlaethol. Yr ail fyddai gosod mewn deddfwriaeth y gofyniad bod athrawon newydd yng Nghymru yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant o'r fath. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r Safonau Proffesiynol ar gyfer athrawon, statws athro cymwysedig, a'r cyfnod sefydlu, yn cynnig potensial i wneud hyn. Gellid hefyd wrth gwrs ystyried rôl gwahanol grantiau a chymhellion ariannol yn y cyd-destun hwn.

- **Cwricwlwm iaith genedlaethol dysgu gydol oes ar gyfer y gweithlu addysg o'r bôn i'r brig:** o fod yn datblygu'r math o hyfforddiant iaith genedlaethol uchod, byddai'n gwneud synnwyr ei gynnig fel opsiwn i'r gweithlu addysg ehangach, gan gynnwys athrawon presennol, gweithlu'r sectorau blynyddoedd cynnar ac ôl-16.

Mae'r cynigion uchod i bob pwrpas yn adeiladu ar y math o ymyraethau sydd eisoes wedi'u cynnwys yng Nghynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg. Fel mae paragraff 94 y papur gwyn yn ei nodi, mae'r cynllun yn cynnwys nifer o ymyraethau a phrosiectau sydd ar waith i fynd i'r afael â'r her o ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu ysgolion. Mae paragraff 94 hefyd yn cyfeirio at ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli er mwyn achredu a monitro darpariaeth addysg gychwynnol athrawon. Mae'r papur gwyn hefyd yn cyfeirio at

| |
|---|
| berthnasedd y continwwm sgiliau Cymraeg o ran datblygu sgiliau'r gweithlu addysg, ac ymddengys y bydd rôl y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol am ddod yn gynyddol bwysig yn y cyd-destun hwn yn ogystal. Credwn fod angen cysylltu'r ymyraethau perthnasol yn well a sicrhau atebolrwydd cadarn mwyn sicrhau gweithredu'r cynllun hwn i'w lawn botensial. Mae'r hyn sydd yn y Cynllun Gweithlu Cymraeg mewn Addysg i bob pwrpas yn cyffwrdd gwaelodion y math o strategaeth a fframwaith cenedlaethol sydd ei hangen. Yn ein barn ni, mae gan y Bil arfaethedig y potensial i ddod â'r elfennau hyn ynghyd mewn ffordd llawer mwy pwrpasol ac effeithiol.<br><br>Dylid nodi bod y sylwadau uchod yn adlewyrchu rhai o egwyddorion argymhellion adroddiad Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar y fframwaith ddeddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg (yn benodol argymhelliad 15, 16, 17 a 18). |

**Cwestiwn 15** – Ydych chi'n cytuno bod y deilliannau a nodir ym mharagraff 82 yn parhau i gynnig ffocws clir i'r cynllunio cenedlaethol a lleol?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Fel mae'r papur gwyn yn ei nodi, mae'r deilliannau a nodir ym mharagraff 82 wedi eu datblygu ar sail gwaith adolygu sylweddol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Y CSCAau diweddaraf yw'r set gyntaf i ddefnyddio'r fframwaith newydd, ac mae'n rhy gynnar i fesur llwyddiant y gyfundrefn newydd. Does dim rheswm felly i ystyried newidiadau sylfaenol i'r deilliannau ar hyn o bryd. Wedi dweud hyn byddem yn croesawu pe byddai deilliant 3 a 4 yn rhoi mwy o bwyslais ar gydgynllunio rhwng ysgolion a cholegau addysg bellach i sicrhau dilyniant ieithyddol effeithiol i ddysgwyr ôl-16. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun sefydlu'r Comisiwn addysg drydyddol, a rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn darparu cyngor i'r Comisiwn ar faterion yn ymwneud ag addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae angen annog cynlluniau strategol rhanbarthol addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg, sy'n rhoi lles dysgwyr fel blaenoriaeth.<br><br>Fel rydym yn nodi yn ein hymateb i gwestiwn 19, mae'n bosib bod angen edrych ar ddeilliant 7 er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'n gywir y meysydd mae gan awdurdodau lleol ddylanwad arnynt, a'r materion sydd bennaf yn gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae'n bosib y bydd cynigion y papur gwyn yn golygu y bydd angen ystyried rhai o'r deilliannau yn y dyfodol. Er enghraifft, mae'n bosib bydd cyflwyno continwwm sgiliau Cymraeg yn cynnig ffordd fwy effeithiol a dilys o fesur cynnydd ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae'n bosib hefyd bydd sefydlu cyfundrefn statudol ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl cyfrwng iaith yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i osod targedau a mesur cynnydd. Er |

| |
|---|
| enghraifft, bydd nifer ysgolion mewn categorïau penodol, a hefyd y gwaith monitro manwl ar lefel ysgol yn ddangosyddion hynod bwysig yng nghyd-destun amcanion y CSCAau. |

**Cwestiwn 16** – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i gyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu eu Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCA) ar ôl 5 mlynedd i alinio gydag adroddiad cynnydd 5 mlynedd y Cynllun Cenedlaethol?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno â'r cynigion hyn ac mae'n rhesymol alinio proses adolygu a diwygio CGCA gyda'r broses o lunio adroddiad cynnydd 5 mlynedd y Cynllun Cenedlaethol. Byddai'n ddefnyddiol deall sut yn union y bydd hyn yn digwydd fodd bynnag. Credwn y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r adroddiad cynnydd 5 mlynedd yn digwydd gyntaf (ac o bosib yn defnyddio adolygiadau blynyddol o'r CGCA fel sail tystiolaeth), ac yna bod y broses o adolygu a diwygio CGCA yn dilyn. Byddai hyn yn caniatáu i awdurdodau lleol adlewyrchu ac ymateb i ganfyddiadau a thystiolaeth yr adroddiad cynnydd 5 mlynedd. |

**Cwestiwn 17** – Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor y dylai targedau y Gymraeg mewn addysg gael eu gosod ar awdurdodau lleol gan Weinidogion Cymru?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno a'r cynnig bod y Llywodraeth am arwain yn fwy uniongyrchol ar y mater allweddol hwn. Fel rydym yn ei nodi yn ein hymateb i gwestiwn 12, mae achos clir a chyfiawn dros fynd ati'n rhagweithiol i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg ar hyd a lled Cymru. Bydd y cynigion hyn yn ffordd effeithiol o wneud hyn.<br><br>Un rhan o'r dasg, fodd bynnag, yw gosod targedau, a mater gwahanol yw cyflawni'r rhain. Yn amlwg, fe fydd gan awdurdodau lleol rôl allweddol yn y cyd-destun hwn, ond fe fydd hefyd rhaid sicrhau bod prosesau cyllido a chymeradwyo cynlluniau cyfalaf addysg Llywodraeth Cymru wedi'u halinio'n llwyr â'r targedau. Mae'r cynigion yma yn golygu y bydd gan Lywodraeth Cymru ddylanwad llawer mwy uniongyrchol ar ddatblygiad addysg Gymraeg ar draws Cymru, ac rydym yn croesawu hyn.<br><br>Rydym hefyd yn croesawu cynigion paragraffau 88 a 89 sy'n nodi y gall Gweinidogion Cymru osod disgwyliadau uwch mewn rhai ardaloedd penodol a hynny er mwyn gwarchod |

| |
|---|
| y Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae'r potensial i gydlynu'r Bil hwn gyda gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn un cyffrous a chadarnhaol. |

**Cwestiwn 18** – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i Weinidogion Cymru gomisiynu adolygiad allanol o gynnwys Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCA) drafft pan fo'n briodol?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| O fod wedi craffu'n fanwl ar bob CSCA drafft yn 2021/2022 rydym yn llwyr ymwybodol o gymhlethdod trefniadau addysg leol. Rydym felly yn meddwl ei bod yn synhwyrol galluogi Gweinidogion Cymru i gomisiynu adolygiad o CGCA drafft, gan dderbyn tystiolaeth arbenigol ar faterion penodol a lleol. |

**Cwestiwn 19** – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion i roi dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynllunio eu gweithlu?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Yn amlwg mae gan awdurdodau lleol rôl yn y cyd-destun hwn, ond mae'r rôl hwn yn weddol gyfyngedig o gymharu â'r rôl sydd gan y Llywodraeth i'w chwarae yn cydlynu ymdrechion ar lefel cenedlaethol.<br><br>Mae'r bwriad i ofyn i awdurdodau lleol ystyried anghenion y gweithlu yn y dyfodol yn synhwyrol. Gallwn weld sut bydd hyn yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu neu fireinio polisïau ac ymyraethau cenedlaethol. Mae hefyd yn gwneud synnwyr bod awdurdodau lleol yn cynllunio ar gyfer datblygu sgiliau iaith eu gweithlu addysg presennol. Gallwn weld sut byddai hyn yn hwyluso cydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol i sicrhau hyfforddiant ieithyddol i'r gweithlu presennol, ac i fesur cynnydd yn hyn o beth. Ond mae angen bod yn glir mai rôl y Llywodraeth yn genedlaethol yw sicrhau bod digon o athrawon yn dod drwy'r system. Nid oes gan Awdurdodau Lleol lawer o reolaeth dros gynllunio'r gweithlu yn y cyd-destun hwn. Mae'r geiriad y bydd 'dyletswydd ar awdurdodau lleol (i) bennu targedau 10 mlynedd...ar gyfer cynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg' ychydig yn gamarweiniol o'r herwydd. Nid yw'n rhesymol bod disgwyl i awdurdodau lleol osod targedau ar faterion sydd i bob pwrpas tu hwnt i'w dylanwad. Mae gosod targedau ynghylch datblygu sgiliau iaith eu gweithlu presennol yn gwbl berthnasol, fodd bynnag. |

| |
|---|
| Byddai'r math o gynigion rydym yn cynnig yn ein hymateb i gwestiwn 14 yn cryfhau'r agwedd hwn o'r strategaeth. Hynny yw, byddai'r disgwyliad ar awdurdodau lleol yn llawer cryfach pe bai'r Llywodraeth hefyd yn arwain proses o gynllunio, datblygu a darparu hyfforddiant ieithyddol cenedlaethol i athrawon. Mae gwaith pellach y gellid ei wneud er mwyn datblygu'r fframwaith cenedlaethol cydlynol hwn, fyddai yn galluogi ac yn hwyluso gwaith yr awdurdodau lleol yn y cyd-destun hwn. |

**Cwestiwn 20** – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ym mharagraffau 100 i 102 ynghylch cyhoeddi adroddiadau ar weithredu'r Cynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCAau) a chynnydd yn erbyn targedau'r Cynllun Cenedlaethol?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno â'r cynigion, ond fel rydym yn ei nodi yn ein hymateb i gwestiwn 16, credwn fod angen rhagor o eglurder ynghylch perthynas yr adroddiadau adolygu blynyddol a'r adroddiadau 5 mlynedd. |

**Cwestiwn 21** – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i roi swyddogaeth i Estyn i gynnal adolygiad chwim a chynnig argymhellion mewn sefyllfaoedd lle mae'n ymddangos bod risg na fydd awdurdod yn gwireddu ei dargedau?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno â'r cynnig hwn ac mae'r bwriad i roi'r swyddogaeth i Estyn yn rhesymegol o ystyried bod Estyn eisoes â rôl yn arolygu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol. Byddai'n ddefnyddiol deall goblygiadau rhoi'r swyddogaeth ychwanegol hwn i Estyn o ran adnoddau ac arbenigedd, ac hefyd sut byddai hyn yn gweithio yn ymarferol. |

**Cwestiwn 22** – Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill ynghylch sut i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd camau rhesymol i weithredu eu Cynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCAau)?

| |
|---|
| Mae’r papur gwyn yn canolbwyntio ar hwyluso a galluogi awdurdodau lleol a phartneriaid perthnasol i weithredu yn unol ag amcanion cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Rydym yn cytuno yn llwyr â’r egwyddor hon. Er hyn, mae’r papur hefyd yn cynnig amryw o fecanweithiau ar gyfer sicrhau monitro ac atebolrwydd, ac er mwyn ymyrryd pe bai angen.<br><br>Fel y gwyddoch, problem amlwg yn y gorffennol yw nad yw awdurdodau lleol bob tro yn gweithredu yn unol ag ymrwymiadau sydd wedi’u cynnwys yn eu CSCA. Er gwaethaf ymrwymiadau a thargedau clodwiw mewn cynlluniau strategol, mae diffyg cynnydd ystyrlon wedi bod yn nifer helaeth awdurdodau lleol Cymru. Rhan o’r broblem yma yw bod penderfyniadau addysg awdurdodau lleol yn aml yn mynd yn groes neu yn tanseilio ymrwymiadau'r CSCA. Mae angen felly weld newid meddylfryd yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn datblygu cynigion ad-drefnu addysg. Mae angen sicrhau bod ymrwymiadau a thargedau’r CSCA yn treiddio mewn i holl agenda polisi addysg awdurdodau lleol. Nid hawdd fydd newid y meddylfryd hwn ar hyd a lled Cymru, a chredwn felly bod angen ystyried pob opsiwn posib. Mae arweiniad y Llywodraeth o safbwynt ei negeseuon a pholisi yn hanfodol yn y cyd-destun hwn. Fel yr ydym wedi ei nodi yn ein hymateb i gwestiwn 17, un o’r ffyrdd mwyaf pwerus sydd gan y Llywodraeth o sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithredu yn unol â’u CSCA yw'r broses o ariannu prosiectau cyfalaf. Mae hwn yn arf hynod bwerus, ac mae’n cyd-fynd ag ysbryd y papur gwyn o fod yn hwyluso a galluogi yn hytrach nag yn atal neu rwystro.<br><br>Mae’n bosib bod ffyrdd pellach o sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd camau rhesymol i weithredu eu CSCAau fodd bynnag. Mae posibiliadau yn bodoli o ran cryfhau gofynion asesu effaith, a hefyd ystyried ymhellach potensial y safonau llunio polisi. |

**Cwestiwn 23** – Ydych chi’n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg i rieni a gofalwyr?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno fod rôl allweddol gan awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg i rieni a gofalwyr. Yr awdurdodau lleol sydd â chyswllt uniongyrchol â rhieni a gofalwyr wrth iddynt wneud penderfyniadau ynghylch addysg eu plant, ac felly mae’n gwneud synnwyr bod rôl ganolog i’r awdurdodau lleol yma. Dylai’r ddyletswydd hon dreiddio i’w cynlluniau llesiant a’u cynlluniau hybu’r Gymraeg.<br><br>Er hyn, ac fel rydym yn ymhelaethu arno isod, mae hefyd rôl i nifer o sefydliadau eraill i gefnogi’r gwaith hyrwyddo hwn, ac i sicrhau cysondeb yn y negeseuon sy’n cael eu rhannu â rhieni a gofalwyr. |

Un o brif egwyddorion y papur gwyn yw cynnig cyfle i bob unigolyn yng Nghymru ddatblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus. Yn y cyd-destun hwn mae'n bwysig iawn sicrhau bod pawb yng Nghymru, waeth beth fo'u cefndir yn teimlo bod y Gymraeg yn perthyn iddyn nhw a bod pawb yn cael cyfleoedd cyfartal i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Wrth ddatblygu'r Bil mae angen ystyried yn llawn y rhwystrau sydd wedi atal nifer o bobl o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol rhag dod yn siaradwyr Cymraeg yn y gorffennol. Yn fwy penodol, mae datblygu'r Bil yn gyfle i ddenu mwy o bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i anfon eu plant i ysgolion Cymraeg. Er mwyn gwneud hyn mae'n hanfodol sicrhau bod gwaith hyrwyddo awdurdodau lleol yn cael eu targedu'n eang, a'u bod yn gynhwysol ac yn adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau. Byddai hyn yn gyson â rhai o ymrwymiadau (tudalen 70 er enghraifft) o Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru.

**Cwestiwn 24** – Pa gefnogaeth y dylai Weinidogion Cymru ei chynnig o ran hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg?

**Sylwadau ategol**

Mae'r cwestiwn hwn yn awgrymu bod gan Weinidogion Cymru rôl bwysig i'w chwarae yn y cyd-destun hwn, ond nid yw'r papur gwyn yn trafod hyn yn ddigonol. Yn ogystal â'r gwaith y mae angen i awdurdodau lleol ei wneud yn hyrwyddo addysg Gymraeg, mae hefyd rôl allweddol i Weinidogion Cymru yn darparu gwybodaeth a sicrhau cysondeb ynghylch y negeseuon sy'n cael eu rhannu gan awdurdodau lleol ac ysgolion.

Un rhan o hyn fyddai casglu a lledaenu'r sail dystiolaeth ac ymchwil ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys y deilliannau ieithyddol disgwyliedig i ddysgwyr. Mae hefyd angen lledaenu negeseuon ynghylch pwysigrwydd cynyddol dwyieithrwydd yn y byd gwaith yng Nghymru, ac mae'n bosib gall y Comisiynydd gyfrannu yn y cyd-destun penodol hwn. Credwn hefyd fod angen ymgyrch hyrwyddo'r Gymraeg ym myd addysg sydd yn llawer mwy eang a hirdymor. Mae angen ystyried ffyrdd o ddylanwadu a newid meddylfryd y boblogaeth yn fwy cyffredinol. Nid yn unig mae angen ystyried sut mae dylanwadu ar rieni a gofalwyr sydd ar ganol gwneud penderfyniadau ynghylch addysg eu plant ond mae angen ystyried sut mae newid agweddau'r boblogaeth yn fwy cyffredinol.

Mae canllawiau'r Llywodraeth ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn trafod y gwaith mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ei wneud yn y maes hwn. Gwyddom hefyd fod y Llywodraeth yn gwneud gwaith pwysig ym maes cyfathrebu am y Gymraeg, a sut i newid meddylfryd pobl ynghylch defnyddio'r Gymraeg. Credwn felly fod angen i'r Bil osod dyletswydd glir ar Weinidogion Cymru yn y cyd-destun hwn hefyd. Tra bo rôl allweddol gan awdurdodau lleol yn lledaenu'r neges, mae angen i Weinidogion Cymru berchnogi cynnwys y negeseuon hyn gan sicrhau cysondeb ac ansawdd ar draws 22 awdurdod lleol.

Fel rydym eisoes wedi ei nodi yn ein hymateb i gwestiwn 23, credwn ei bod yn hanfodol bod addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei hyrwyddo'n eang ac yn denu mwy o ddysgwyr o

| |
|---|
| gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru yn nodi dyletswyddau Llywodraeth Cymru yn ogystal ag awdurdodau lleol yn y cyd-destun hwn. |

**Cwestiwn 25** – Ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo darpariaeth trochi hwyr i rieni, gofalwyr a dysgwyr?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae angen sicrhau bod rhieni, gofalwyr a dysgwyr yn ymwybodol bod addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn opsiwn i bob plentyn,  waeth beth fo oedran neu allu dysgwyr yn y Gymraeg. |

**Cwestiwn 26** – Ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu trochi hwyr i ddysgwyr?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae cynnig darpariaeth trochi hwyr yn hollbwysig er mwyn sicrhau darpariaeth addysg Gymraeg cynhwysol. Credwn fod hwn yn un maes lle mae gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn berthnasol. Pe sefydlid yr egwyddor o  ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, a bod polisïau addysg yr ardaloedd hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu ysgolion cyfrwng Cymraeg, yna mae darpariaeth drochi hwyr am ddod yn gynyddol allweddol.<br><br>Mae'r Llywodraeth wedi darparu cyllid ychwanegol ar gyfer hwyluso darpariaeth trochi yn ddiweddar, a bydd angen buddsoddiad genedlaethol ychwanegol er mwyn galluogi awdurdodau lleol ddatblygu'r fath ddarpariaeth. |

**Cwestiwn 27** – Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylai cefnogaeth arbenigol ar gyfer dysgu'r Gymraeg gydol oes, gan gynnwys addysg ysgolion, gael ei chanoli o fewn un sefydliad?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno ag egwyddor y cynigion ac o'r farn y byddai'n ddatblygiad arloesol a chyffrous. Er hyn, credwn fod angen mwy o wybodaeth am statws y sefydliad, beth fydd ei wahanol swyddogaethau, a sut bydd yn cydweithio â sefydliadau eraill sydd â swyddogaethau tebyg/perthnasol. Byddem am wybod, er enghraifft, beth yn union fydd rôl sefydliad o'r fath yn cefnogi ysgolion y tu hwnt i ddarparu hyfforddiant ieithyddol i'r gweithlu a chyfrannu at greu adnoddau. Nid yw'r materion hyn o reidrwydd yn broblematig, ond mae'n ymddangos bod nifer o'r cynigion yn y bennod hon heb eu datblygu'n llawn hyd yma.<br><br>Beth bynnag fydd union rôl sefydliad o'r fath, credwn y dylai'r sefydliad fod yn canolbwyntio yn benodol ar ddarparu hyfforddiant iaith arbenigol i'r gweithlu addysg. Fel rydym yn ymhelaethu arno yn ein hymateb i gwestiwn 14 credwn y dylid ystyried mynd ymhellach yma, gan gynnwys gyflwyno mewn deddfwriaeth gyfrifoldebau penodol i'r perwyl hwn. |

**Cwestiwn 28** – Ydych chi'n cytuno y dylai rôl y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gael ei hehangu i ymgymryd â'r swyddogaeth neu oes model arall y dylid ei ystyried?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno mewn egwyddor ond hoffem fwy o fanylder ynghylch beth yn union fydd swyddogaethau'r sefydliad, a beth fydd goblygiadau gosod dyletswyddau o'r fath ar y Ganolfan, er enghraifft. Corff sy'n arbenigo mewn dysgu Cymraeg i oedolion yw'r Ganolfan ar hyn o bryd a bydd angen cyllideb briodol er mwyn cyflawni'r dyletswyddau ychwanegol sy'n cael eu cynnig yma.<br><br>Hoffem ddeall yn well pam fod y cynigion ynghylch canoli'r gefnogaeth dysgu Cymraeg am gael eu gwireddu tu allan i'r Bil. Os na ellir creu corff statudol drwy'r Bil a gosod dyletswyddau statudol, credwn dylid ehangu ar y cynigion sydd yma a gosod dyletswyddau penodol ar y corff i gynllunio a darparu hyfforddiant ieithyddol cenedlaethol i'r gweithlu addysg (yn ogystal â'r dyletswyddau ehangach). Gweler ein hymateb i gwestiwn 14 am fwy o fanylder ynghylch hyn. |

**Cwestiwn 29** – Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor y dylid gwarantu bod yna ddigon o ddarpariaeth dysgu Cymraeg a strwythurau addas mewn lle i gefnogi dysgwyr o bob oed yng Nghymru?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno â'r egwyddor ac mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun y gweithlu addysg. Fel rydym yn ymhelaethu arno yn ein hymateb i gwestiwn 14 nid ydym o'r farn fod strwythurau addas mewn lle i sicrhau gweithlu addysg sydd am alluogi cyflawni amcanion y papur gwyn. |

## Cwestiynau o'r ddogfen 'Amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg

**Cwestiwn 30** – Ydych chi'n cytuno gyda'n dehongliad ni o'r grwpiau a'r cyrff sy'n cael eu heffeithio gan y newidiadau? A oes grwpiau neu gyrff eraill yn dod o fewn cwmpas y newidiadau ar wahân i'r grwpiau a'r cyrff a nodir yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 31** – Ar wahân i'r grwpiau a'r cyrff a nodir yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg ar ba grwpiau neu gyrff fyddai'r costau'n disgyn?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 32** – Beth yw'r effeithiau eraill (ariannol ac anariannol) sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth arfaethedig nad ydynt wedi'u hamlinellu yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 33** – A oes unrhyw sylwadau eraill ar yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

## Cwestiynau gorfodol

**Cwestiwn 34** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn y Papur Gwyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 35** – Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gallai'r cynigion arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn: cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 36** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch ddefnyddio'r blwch isod i wneud hynny:

Mae cwestiynau'r ymgynghoriad yn benodol iawn, a hoffem fanteisio ar y cyfle i bwysleisio ein cefnogaeth gyffredinol i gynigion y papur gwyn. Er ein bod wedi cynnig llawer o sylwadau manwl ar y gwahanol gwestiynau, dylid ystyried yr ymatebion hyn yng nghyd-destun y ffaith ein bod yn cefnogi prif egwyddorion y papur. Mae nifer o'r cynigion yn rai sylweddol tu hwnt, ac yn y tymor hwy mae ganddynt y potensial i newid yn sylweddol ddyfodol y Gymraeg ym myd addysg Cymru.

Byddem hefyd yn dymuno datgan ein cefnogaeth i'r egwyddorion dyfnach sy'n sail i'r papur gwyn hwn. Mae'r camau mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cymryd yn deg ac yn gymesur, ac yn cydbwyso'r angen i barchu hawliau a dewisiadau unigolion gyda'r

angen i roi cyfle i bob plentyn ddatblygu’n siaradwyr Cymraeg hyderus mewn gwlad ddwyieithog.

Fel mae’r ddogfen ymgynghori yn ei gydnabod, mae’r papur gwyn yn trafod cynigion deddfwriaethol yng nghyd-destun polisi ehangach. Mae’n amlwg felly bod gwaith sylweddol i benderfynu beth fydd yn cael ei gyflwyno mewn bil drafft a beth fydd yn cael ei weithredu drwy newidiadau i bolisi. Byddem yn awyddus iawn felly i barhau cydweithio a thrafod wrth i gynigion y papur gwyn gael eu siapio ymhellach wrth ddatblygu bil drafft a pholisi ehangach. Credwn y bydd hwn yn gyfle i ni drafod rhai o’r opsiynau sy’n bodoli mewn meysydd allweddol fel cynllunio’r gweithlu.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai’n well gennych i’ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐